

# **Fforwm Mynediad Lleol Sir Gaerfyrddin**

## **2017**

## **Adroddiad Blynyddol**

## **Chwefror 2018**

### **Rhagair i Adroddiad Blynyddol 2017**

Mae 2017 wedi bod yn flwyddyn brysur i'r Fforwm gyda 4 cyfarfod, nifer sylweddol o eitemau wedi'u trafod, a 5 cyflwyniad wedi'u derbyn.

Teimlaf fod y Fforwm wedi parhau i wneud cynnydd, gydag ymwybyddiaeth gynyddol o'r hyn y mae'r Fforwm yn ei wneud, a mwy o fewnbwn gan amrywiol adrannau yng Nghyngor Sir Gaerfyrddin a'r Penaethiaid Gwasanaeth. Fodd bynnag, mae'n dal i fod yn amlwg bod angen gwneud mwy i sicrhau bod y Fforwm yn cael gwybod yn rheolaidd am bob prosiect sy'n effeithio ar fynediad i gefn gwlad.

Trwy gydol 2017, mae Cyngor Sir Gaerfyrddin wedi bod yn adolygu ei Gynllun Gwella Hawliau Tramwy a'r gobaith yw y bydd hwn yn ei le yn gynnar yn 2018 ac y bydd yn ffurfio'r sail ar gyfer rheoli hawliau tramwy a gwell mynediad i gefn gwlad i'r cyhoedd am y 10 mlynedd nesaf.

Mae'n gadarnhaol gweld bod nifer y materion cynnal a chadw sydd heb eu datrys a gofnodwyd gan yr Awdurdod wedi lleihau ychydig dros y 12 mis diwethaf. Serch hynny, rwy'n sylwi bod y nifer hwn wedi parhau'n gyson dros 1250 yn ystod y cyfnod hwn a bod dros 30% o'r materion hyn yn fwy na 5 mlynedd yn ôl. Rwy'n dal i boeni o weld bod nifer y materion cyfreithiol sydd heb eu datrys yn parhau i dyfu a chyda dros 500 o faterion heb eu datrys, mae'r ffigwr bellach bron 25% yn uwch na blwyddyn yn ôl.

Bydd 2018 yn flwyddyn brysur arall i'r Fforwm gan y bydd angen cryn dipyn o fewnbwn ar gwblhau'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy newydd ar gyfer Sir Gaerfyrddin ac mae rhai prosiectau arwyddocaol ar y gweill gan gynnwys Llwybr Beicio Dyffryn Tywi. Mae'r Fforwm yn gobeithio cael mwy o fanylion amdanynt dros y misoedd sydd i ddod.

Yn ogystal, hoffwn weld y Fforwm yn cymryd mwy o ran mewn prosiectau twristiaeth yn y Sir a chynhyrchu Strategaeth Farchogaeth ar gyfer y Sir.

Carwn ddiolch i Caroline Ferguson, Lucy Pugh a Jason Lawday am roi o'u hamser ac am eu cyngor i'r fforwm fel ysgrifenyddion dros y flwyddyn ddiwethaf.

Yn ogystal carwn ddiolch i holl aelodau'r fforwm am eu hamser a'u harbenigedd i'r Fforwm.

Mark Hadley  
Cadeirydd  
Fforwm Mynediad Lleol Sir Gaerfyrddin

### **Rhagarweiniad**

Sefydlwyd Fforwm Mynediad Lleol Sir Gaerfyrddin ym mis Medi 2002. Mae'n gyfrifol am Sir Gaerfyrddin, ac eithrio'r ardal sy'n rhan o Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog; Fforwm Mynediad Lleol Ardal y Gorllewin sy'n gyfrifol am yr ardal honno fel y dangosir yn Atodiad 3. Roedd gan yr Awdurdod Lleol ddyletswydd statudol i sefydlu'r Fforwm Mynediad Lleol yn ôl gofynion Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000.

Swyddogaeth statudol y Fforwm yw cynghori'r awdurdod, Cyfoeth Naturiol Cymru ac eraill am wella mynediad y cyhoedd i dir yn yr ardal at ddibenion hamddena yn yr awyr agored a mwynhau'r ardal, gan barchu anghenion rheoli tir a harddwch naturiol y wlad.

Bellach mae cylch gwaith y Fforwm wedi cael ei ehangu i roi cyngor nid yn unig i'r awdurdod penodi (Cyngor Sir Caerfyrddin yn ein hachos ni), yr Awdurdod Prifffyrdd a chyrff eraill fel y nodir gan y rheoliadau, ond hefyd i roi cyngor ar Gynlluniau Gwella Hawliau Tramwy Cyhoeddus, Wardeiniaeth, llunio is-ddeddfau ac eithrio a chyfyngu hir dymor ar fynediad.

Dylid ceisio barn y Fforwm ynghylch unrhyw reoliadau newydd o dan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000, rheoli hawliau mynediad newydd, y blaenoriaethau strategol ar gyfer hawliau tramwy cyhoeddus a rhwydweithiau beicio a phob math arall o hamddena yn yr awyr agored.

Mae aelodau'r Fforwm wedi ymrwymo i fynychu cyfarfodydd o grwpiau allanol os bydd hynny'n briodol ac fe'u hanogir i wneud popeth o fewn eu gallu i ymwneud â'r cyhoedd.

Mae holl gyfarfodydd y Fforwm yn agored i'r cyhoedd. Mae cofnodion cyfarfodydd y Fforwm a manylion eraill ynghylch y Fforwm ar gael ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin: <http://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/gwasanaethaur-cyngor/hawliau-tramwy-cyhoeddus/fforwm-mynediad-lleol/>

Mae rheoliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau penodi baratoi adroddiad blynyddol, cyn gynted â phosib ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol, ynghylch pob Fforwm y maent yn gyfrifol amdano. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys cyfarwyddyd Cyfoeth Naturiol Cymru ynghylch llunio adroddiadau Blynyddol Fforymau Mynediad Lleol a chynnwys yr adroddiadau hynny.

Bydd amryw bwrpas i'r adroddiad blynyddol, sef cyflwyno:

- a) Crynodeb o waith y flwyddyn flaenorol. Bydd cofnodion cyfarfodydd unigol a dogfennau eraill a luniwyd yn rhoi mwy o fanylion ond bydd yr adroddiad blynyddol yn crynhoi gwaith y Fforwm.
- b) Cynllun gwaith am y flwyddyn sydd i ddod. Hwn fydd y cynllun y cytunodd y Fforwm a'r awdurdod penodi arno, yn unol â rheoliad 16(2)(b). Derbynnir y gall blaenoriaethau sy'n newid a phwysau gwaith arall olygu na ellir cydymffurfio â'r cynllun yn llawn.

- c) Dogfen 'gyhoeddusrwydd'. Yn ôl statud mae'n rhaid i'r adroddiad blynyddol fod ar gael i'r cyhoedd ei ddarllen ac mae'n rhaid iddo fod ar gael i'r cyhoedd ei brynu.

### **Adolygu'r Flwyddyn**

#### **Adroddiad ar y Swyddogaeth Statudol**

Mae'r adran hon o'r adroddiad blynyddol yn canolbwyntio ar sut y cyflawnodd y Fforwm ei swyddogaeth statudol yn ystod y flwyddyn sy'n gorffen ar 31 Rhagfyr 2017. Yn ôl y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000, ei swyddogaeth yw cynghori:

- a) Yr awdurdod penodi.
- b) Unrhyw gorff sy'n cyflawni swyddogaethau dan Ran I mewn perthynas â thir yn yr ardal honno.
- c) Os yw'r awdurdod penodi yn Awdurdod Parc Cenedlaethol, yr awdurdod priffyrdd lleol ynghylch unrhyw ddarn o'r tir hwnnw, a
- d) Chyrff eraill y gellir eu pennu.

Ynghylch gwella mynediad cyhoeddus i dir yn yr ardal honno at ddibenion hamddena yn yr awyr agored a mwynhau'r ardal.

Bydd y cyrff a enwir yn (a) i (d) (uchod) yn rhoi sylw, wrth iddynt gyflawni'u swyddogaethau, i unrhyw gyngor perthnasol a roddir iddynt gan Fforwm Mynediad Lleol dan yr is-adran hon neu unrhyw ddarpariaeth arall dan y Ddeddf hon.

Cynhaliodd y Fforwm 4 cyfarfod yn y cyfnod rhwng 1 Chwefror 2017 a 31 Rhagfyr 2017. Gellir crynhoi'r cyfarfodydd hyn fel a ganlyn:

- 1) 16 Chwefror 2017 – Canolfan Hamdden Caerfyrddin
- 2) 11 Mai 2017 – Canolfan Tywi Llandeilo
- 3) 28 Medi 2017 – Canolfan Hamdden Caerfyrddin
- 4) 7 Rhagfyr 2017 – Canolfan Tywi Llandeilo

**Materion a Ystyriwyd gan y Fforwm rhwng 1 Chwefror a 31 Rhagfyr 2017**

1. Pwnc Trafod: **Teithio Llesol / Llwybr Beicio Dyffryn Tywi**
- Dyddiad(au) Trafod: 16 Chwefror 2017, 11 Mai 2017, 28 Medi 2017, 7 Rhagfyr 2017
- Crynodeb: Ym mis Chwefror, rhoddodd Simon Charles (Rheolwr Strategaeth Drafnidiaeth ac Isadeiledd Cyngor Sir Gaerfyrddin) gyflwyniad i'r Fforwm ynghylch Teithio Llesol yn Sir Gaerfyrddin a Llwybr Beicio Dyffryn Tywi. Mynegodd y Fforwm bryderon ynghylch dichonoldeb y Llwybr gan ofyn am fanylion ariannol ar gyfer y prosiect. Yng nghyfarfod mis Mai, roedd adran ariannol yr adroddiad dichonoldeb ar gyfer Llwybr Beicio Dyffryn Tywi wedi cael ei darparu ac roedd aelodau'n dal i fynegi pryder ynghylch dichonolrwydd y prosiect a'r ffaith nad oedd y Fforwm yn teimlo bod ymgynghori priodol wedi digwydd mewn perthynas â'r prosiect. Gwnaethpwyd cais am yr adroddiad llawn i'w ystyried. Yng nghyfarfod mis Medi, mynegodd aelodau'r Fforwm bryderon na fyddai'n bosibl i geffylau gael mynediad i'r llwybr. Codwyd pryderon ynghylch y ffaith y gallai costau cynnal a chadw parhaus ar gyfer y llwybr ddod o gyllidebau presennol a oedd eisoes o dan bwysau a chytunwyd y byddai'r mater yn cael ei godi yng Nghyfarfod nesaf y Penaethiaid Gwasanaeth. Unwaith eto, gofynnwyd am yr adroddiad llawn. Yn ogystal, cadarnhawyd na fyddai unrhyw adrannau 'caniataol' yn addas ar gyfer teithiau cerdded tywysedig i gerddwyr gan na fyddai eu hyswiriant yn ddigonol. Ym mis Rhagfyr, gofynnwyd eto am yr adroddiad llawn. Cadarnhawyd yn y Cyfarfod i Benaethiaid Gwasanaeth na fyddai unrhyw arian yn dod o'r gyllideb hawliau tramwy cyhoeddus i dalu am greu na chynnal a chadw'r llwybr. Hefyd, cynhaliwyd trafodaethau pellach ynghylch y llwybr.

2. Pwnc Trafod: **Adolygiad o'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy**
- Dyddiad(au) Trafod: 16 Chwefror 2017, 11 Mai 2017, 28 Medi 2017, 7 Rhagfyr 2017
- Crynodeb: Ym mis Chwefror, rhoddodd Martin Dolan o gwmni Capita gyflwyniad ynghylch y broses o Adolygu'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy. Yng nghyfarfod mis Mai, rhoddwyd gwybod i'r aelodau fod y broses yn 'mynd yn dda,' bod is-bwyllgor y Fforwm wedi mynd drwy'r newidiadau arfaethedig ac y byddai'r ymgynghoriad cyhoeddus yn dechrau cyn bo hir. Ym mis Medi, rhoddwyd gwybod i'r Fforwm fod yr ymgynghoriad cyhoeddus yn parhau. Ym mis Rhagfyr, cyflwynwyd drafft cyntaf y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy i'r Fforwm a chafwyd trafodaeth fanwl amdano. Cafodd y Fforwm wybod y byddai'r drafft terfynol ar gael ym mis Ionawr.
3. Pwnc Trafod: **Llwybr Rheilffordd Calon Cymru**
- Dyddiad(au) Trafod: 16 Chwefror 2017
- Crynodeb: Rhoddodd John Maudsley a Mike Watson o Grŵp Llywio Rheilffordd Calon Cymru gyflwyniad ynghylch y teithiau cerdded arfaethedig a fydd yn cysylltu â Rheilffordd Calon Cymru.
4. Pwnc Trafod: **Pontydd**
- Dyddiad(au) Trafod: 16 Chwefror 2017
- Crynodeb: Cadarnhaodd Cymdeithas Ceffylau Prydain fod hyd at £25,000 ar gael i helpu â Phontydd / Atgyweiriadau Llwybrau Ceffylau a bod Cronfa Gymunedol hefyd ar gael ar gyfer cynnal a chadw llwybrau ceffylau.
5. Pwnc Trafod: **Cilffyrdd sydd ar agor i unrhyw draffig (BOATs) / Ffyrdd Sirol Diddosbarth (UCR's)**
- Dyddiad(au) Trafod: 16 Chwefror 2017

- Crynodeb: Cadarnhawyd bod £16,000 ar gael gan yr adran Briffyrdd i wario ar gilffyrdd sydd ar agor i unrhyw draffig a ffyrdd sirol diddosbarth yn ystod 2017-18.
6. Pwnc Trafod: **Gwirfoddolwyr**
- Dyddiad(au) Trafod: 16 Chwefror 2017
- Crynodeb: Cadarnhawyd bod rhestr o rolau posibl ar gyfer gwirfoddolwyr yn cael ei chreu ar hyn o bryd ac y gallai gwirfoddolwyr helpu i Arolygu Teithiau Cerdded Sirol.
7. Pwnc Trafod: **Prosiect Cerdded 3D**
- Dyddiad(au) Trafod: 16 Chwefror 2017, 11 Mai 2017
- Crynodeb: Yng nghyfarfod mis Chwefror, trafodwyd y ffaith nad oedd y cynllun yn fyw eto. Yng nghyfarfod mis Mai, trafodwyd y ffaith fod y prosiect bellach wedi methu dyddiadau cau mis Ionawr a'r Pasg. Yn ddiweddarach, cadarnhawyd na chafodd y prosiect erioed ei lansio.
8. Pwnc Trafod: **Datblygu Wefan y Fforwm**
- Dyddiad(au) Trafod: 16 Chwefror 2017, 7 Rhagfyr 2017
- Crynodeb: Trafodwyd yr opsiwn o wefan ar wahân ar gyfer y Fforwm yn y cyfarfodydd uchod. Cadarnhaodd Cyngor Sir Gaerfyrddin fod diffyg adnoddau i ofalu am wefan ar wahân a bod y dudalen Fforwm Mynediad Lleol ar wefan CSC yn cael ei diweddarau mor brydlon â phosibl.
9. Pwnc Trafod: **Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (BBNP) Cytundeb Dirprwyo**
- Dyddiad(au) Trafod: 16 Chwefror 2017, 11 Mai 2017
- Crynodeb: Cafodd y Fforwm wybod yng nghyfarfod mis Chwefror fod y cytundeb drafft yn nwylo'r Penaethiaid Gwasanaeth er mwyn cael sylwadau ac y byddai'r Fforwm yn cael gwybod am y cynnydd o ran hyn. Ym mis Mai, cafodd y Fforwm wybod bod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn llunio cytundeb diwygiedig.

10. Pwnc Trafod: **Tîm Cyfreithiol a Chynnal a Chadw  
Cyngor Sir Gaerfyrddin o ran Mynediad i  
Gefn Gwlad - Staffio**
- Dyddiad(au) Trafod: 16 Chwefror 2017, 11 Mai 2017, 28 Medi  
2017, 7 Rhagfyr 2017
- Crynodeb: Cafodd aelodau'r Fforwm y wybodaeth  
ddiweddaraf mewn perthynas â strwythur y  
staff, swyddi gwag a recriwtio yn ystod y  
cyfarfodydd a nodwyd uchod. Mynegwyd  
pryderon yng nghyfarfod mis Mai fod yr  
amserlen ar gyfer recriwtio i'r tîm cyfreithiol  
a bennwyd yn y Cyfarfod i Benaethiaid  
Gwasanaeth yn annhebygol o gael ei  
chyflawni. Ym mis Medi, cafodd y Fforwm  
wybod bod y swydd ar gyfer Swyddog yn yr  
Adran Gyfreithiol yn destun cyfweiliad, bod y  
swydd Cynorthwydd Chwiliadau yn cael ei  
hysbysebu a bod aelod o staff asiantaeth yn  
gwneud y swydd hon ar hyn o bryd. Ym mis  
Rhagfyr, cadarnhawyd bod rhywun wedi  
cael ei benodi ar gyfer y swydd Swyddog  
Mynediad i Gefn Gwlad ac y byddai'r swydd  
Cynorthwydd bellach yn cael ei hysbysebu  
a bod Cynorthwydd Chwiliadau newydd  
wedi cael ei recriwtio. Gofynnodd y Fforwm  
am y cyfnod amser mae'n ei gymryd i lenwi  
swyddi a rhoddwyd gwybod iddynt fod y  
broses yn un 'araf'. Yn ogystal cafodd y  
Fforwm wybod bod y tîm cynnal a chadw  
bellach yn llawn o ran staff.
11. Pwnc Trafod: **Adroddiad Blynyddol y Fforwm**
- Dyddiad(au) Trafod: 16 Chwefror 2017, 11 Mai 2017, 28 Medi  
2017, 7 Rhagfyr 2017
- Crynodeb: Yng nghyfarfod mis Chwefror, cadarnhawyd  
bod adroddiad 2016 yn cael ei gynhyrchu  
gan y Cadeirydd. Cytunwyd ar fân  
newidiadau i'r drafft ym mis Mai. Cytunwyd  
ym mis Medi fod yr adroddiad i'w lofnodi a'i  
ddosbarthu. Yng nghyfarfod mis Rhagfyr,  
cadarnhaodd aelodau eu bod yn credu fod  
cynhyrchu adroddiad blynyddol yn ymarfer  
defnyddiol. Yn dilyn y cyfarfod ym mis  
Rhagfyr, cadarnhawyd bod adroddiad  
blynyddol 2016 ar wefan CSC.



12. Pwnc Trafod: **Aelodau Newydd / Ymddiswyddiadau**
- Dyddiad(au) Trafod: 11 Mai 2017, 28 Medi,  
7 Rhagfyr 2017
- Crynodeb: Ymddiswyddodd Chris Rankin o'r Fforwm cyn y cyfarfod ym mis Mai. Yng nghyfarfod mis Rhagfyr, mynegodd Clive Poulton o'r Gynghrair Anabledd ddiddordeb mewn ymuno â'r Fforwm a chytunwyd y byddai'n cael ei wahodd i'r cyfarfod ym mis Chwefror. Yn ogystal, esboniodd Paul Barrett o Gerddwyr Llanelli y byddai o bosibl yn cymryd lle John Cook ar y Fforwm.
13. Pwnc Trafod: **Proses Gorchymyn Rheoleiddio Traffig ar gyfer Priffyrdd i Gerbydau**
- Dyddiad(au) Trafod: 11 Mai 2017
- Crynodeb: Rhoddodd John McEvoy (Rheolwr Traffig a Diogelwch Ffyrdd CSC) gyflwyniad ynghylch y broses o weithredu Gorchymynion Rheoli Traffig ar hawliau tramwy.
14. Pwnc Trafod: **Cyfarfod Cadeiryddion y Fforwm 2017 / De Cymru Cyfarfod Cadeiryddion y Fforwm**
- Dyddiad(au) Trafod: 11 Mai 2017, 7 Rhagfyr 2017
- Crynodeb: Aeth Geoffrey Williams i gyfarfod Cadeiryddion y Fforymau Mynediad Lleol ar ran y Cadeirydd. Trafodwyd nodiadau o'r cyfarfod gydag aelodau a John Morgan (Cadeirydd y Cadeiryddion) a oedd yn bresennol yn y cyfarfod hwn. Yng nghyfarfod mis Rhagfyr, rhoddodd Geoffrey Williams ddiweddariad i'r aelodau ynghylch y materion a drafodwyd yng nghyfarfod Cadeiryddion Fforymau Mynediad Lleol De Cymru ar 5 Hydref 2017.
15. Pwnc Trafod: **Cyfarfod y Penaethiaid Gwasanaeth**
- Dyddiad(au) Trafod: 11 Mai 2017, 28 Medi 2017,  
7 Rhagfyr 2017
- Crynodeb: Yn dilyn llythyr at Brif Weithredwr Cyngor Sir Caerfyrddin ynghylch y diffyg ymgynghori gan yr Awdurdod â'r Fforwm,

cytunwyd y byddai cyfarfod gyda'r penaethiaid gwasanaeth perthnasol sydd â chyfrifoldeb dros hawliau tramwy yn cael ei drefnu. Cafodd y cyfarfod hwn ei gynnal ym mis Ebrill 2017 a thrafodwyd y canlyniad yng nghyfarfod mis Mai gyda'r aelodau. Yng nghyfarfod mis Medi, rhoddwyd gwybod i'r aelodau fod y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ym mis Hydref. Ym mis Rhagfyr, rhoddwyd diweddariad i'r aelodau mewn perthynas â'r cyfarfod a gynhaliwyd ym mis Hydref.

16. Pwnc Trafod: **Adroddiadau ar Faterion yn ymwneud â'r Rhwydwaith**

Dyddiad(au) Trafod: 11 Mai 2017, 28 Medi 2017,  
7 Rhagfyr 2017

Crynodeb: Darparwyd a thrafodwyd adroddiadau ynghylch materion cyfreithiol a materion cynnal a chadw a oedd heb eu datrys yn y cyfarfodydd a nodwyd uchod. Yng nghyfarfod mis Rhagfyr, nododd yr aelodau fod gostyngiad o ran y materion cynnal a chadw sydd heb eu datrys dros y 12 mis diwethaf a bod materion cyfreithiol sydd heb eu datrys wedi cynyddu. Mynegodd aelodau'r Fforwm bryderon mewn perthynas â'r cynnydd o ran y ffigyrau cyfreithiol a rhoddwyd gwybod iddynt nad oedd rhai awdurdodau lleol hyd yn oed yn prosesu archebion mwyach. Mynegodd y Fforwm bryderon ynghylch y sylw hwn gan ofyn a oedd modd helpu'r awdurdod drwy dynnu sylw Llywodraeth Cymru at y pryderon hyn.

17. Pwnc Trafod: **Datganiad y Gweinidog dros yr Amgylchedd**

Dyddiad(au) Trafod: 11 Mai 2017

Crynodeb: Trafodwyd newidiadau posibl o ran y ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â hawliau tramwy yn y cyfarfodydd a nodwyd uchod.

18. Pwnc Trafod: **Fferm Wynt Brechfa**

Dyddiad(au) Trafod: 11 Mai 2017, 28 Medi 2017, 7  
Rhagfyr 2017

- Crynodeb: Mynegwyd pryderon gan gerddwyr ynghylch y 'diweddariadau' i rai o'r llwybrau yn y goedwig a'r defnydd o lwybrau anghywir gan loriau. Rhoddwyd gwybod i'r Fforwm fod y materion hyn wedi cael eu codi gerbron Cyfoeth Naturiol Cymru a oedd yn edrych arnynt. Mynegodd y Fforwm bryderon ei fod yn teimlo na fu ymgynghori priodol o ran y prosiect hwn a gofynnodd beth gellid ei wneud i stopio gweithgareddau na ddylai fod yn digwydd. Rhoddwyd gwybod i'r Fforwm y gallai'r Uned Gorfodi Rheolau Cynllunio ddelio â hyn. Ym mis Medi, trafodwyd diweddariad ynghylch y prosiect a'r pryderon ynghylch eglurder/manyllder y mapiau. Codwyd y pryder ynghylch ansawdd y mapiau yng nghyfarfod mis Rhagfyr a rhoddwyd gwybod i'r Fforwm y byddai Innogy yn adolygu'r mapiau a'r arwyddion. Yn ogystal, yng nghyfarfod mis Rhagfyr, trafodwyd yr opsiynau ar gyfer defnyddio'r gronfa gymunedol a fydd ar gael.
19. Pwnc Trafod: **Cronfa Ymchwil Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog**
- Dyddiad(au) Trafod: 11 Mai 2017
- Crynodeb: Rhoddwyd gwybod i'r Fforwm fod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog wedi ariannu prosiect ymchwil ynghylch effaith cŵn yng nghefn gwlad. Cytunodd y Fforwm i gadw golwg ar ganlyniad yr ymchwil hwn.
20. Pwnc Trafod: **Gelli Aur**
- Dyddiad(au) Trafod: 11 Mai 2017, 7 Rhagfyr 2017
- Crynodeb: Gwnaeth y Fforwm gais am wybodaeth mewn perthynas â'r hyn a oedd yn digwydd i'r parc a'r hawliau tramwy/llwybrau troed yno yn dilyn grant o £100,000 gan Groeso Cymru. Cadarnhawyd bod y caffi i fod i ail-agor yn yr haf ynghyd â rhai o'r llwybrau cerdded. Yng nghyfarfod mis Rhagfyr, cadarnhawyd na fyddai'r caffi yn agor tan 2018 ac y byddai mynediad i'r cyhoedd yn parhau i gael ei gyfyngu arno yn sgil pryderon iechyd a diogelwch.

21. Pwnc Trafod: **Gorchymyn Rheoleiddio Traffig Morfa Bychan**
- Dyddiadau(au) Trafod: 28 Medi 2017, 7 Rhagfyr 2017
- Crynodeb: Trafodwyd y ffaith fod y Gorchymyn Rheoleiddio Traffig arbrofol hwn bellach ar waith rhwng Awst a Chwefror yn hytrach na rhwng Mawrth a Hydref fel y cytunwyd. Ym mis Rhagfyr, cafodd y Fforwm wybod y byddai'r Gorchymyn Rheoleiddio Traffig yn parhau ar waith tan fis Chwefror a bod Dŵr Cymru a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol wedi gweithredu rhwystrau newydd er mwyn atal mynediad i'w tir. Bydd adolygiad pellach yn cael ei gynnal o'r Gorchymyn Rheoleiddio Traffig hwn.
22. Pwnc Trafod: **Adolygiad o Lwybrau Cerdded y Sir**
- Dyddiad(au) Trafod: 28 Medi 2017, 7 Rhagfyr 2017
- Crynodeb: Trafodwyd y rhesymeg dros adolygu llwybrau cerdded y sir a lleihau eu nifer. Yn ogystal, gwnaeth aelodau'r Fforwm gais bod fersiynau papur o'r taflenni yn parhau i fod ar gael gan nad oedd yr opsiwn o'u rhoi ar-lein yn unig yn syniad da oherwydd nad oes signalau wi-fi / ffôn ar gael ym mhob man.
24. Pwnc Trafod: **Nant Gronw**
- Dyddiad(au) Trafod: 28 Medi 2017, 7 Rhagfyr 2017
- Crynodeb: Codwyd materion ynghylch problemau cynnal a chadw yn Nant Gronw gan aelod o'r cyhoedd. Cytunwyd cysylltu â Russell Jones o Gyfoeth Naturiol Cymru am y problemau hyn gan mai cyfrifoldeb Cyfoeth Naturiol Cymru yw cynnal a chadw'r safle.
25. Pwnc Trafod: **Saethu yn Felin-wen**
- Dyddiad(au) Trafod: 28 Medi 2017, 7 Rhagfyr 2017
- Crynodeb: Trafodwyd y problemau ynghylch cais cynllunio ar gyfer saethu a rhoddwyd gwybod i'r aelodau fod Jason Lawday o Gyngor Sir Caerfyrddin yn delio â'r pryderon a godwyd gan aelodau o'r cyhoedd.

26. Pwnc Trafod: **Ymgynghoriad ynghylch Rheoli Adnoddau Cynaliadwy Cymru**
- Dyddiad(au) Trafod: 28 Medi 2017
- Crynodeb: Cytunwyd y dylai'r Fforwm ymateb i'r ymgynghoriad hwn a bu'r aelodau yn trafod eu hymateb yng nghyfarfod mis Medi.
27. Pwnc Trafod: **Cofnodion y Fforwm ar Wefan y Cyngor**
- Dyddiad(au) Trafod: 7 Rhagfyr 2017
- Crynodeb: Trafodwyd y ffaith nad oedd gwefan y Cyngor yn cynnwys holl gofnodion y Fforwm ar gyfer 2017. Rhoddwyd gwybod i'r Fforwm fod hwn yn sgil diffyg adnoddau a chytunwyd y byddai'r mater yn cael ei drafod yng nghyfarfod y Penaethiaid Gwasanaeth ym mis Mawrth 2018.

**Gweithgareddau eraill y Cadeirydd / yr Is-gadeirydd / y Fforwm**

Rhestr o'r gweithgareddau eraill a gyflawnodd Cadeirydd / Is-gadeirydd / Aelodau eraill y Fforwm Mynediad Lleol yn unol ag amcanion y Fforwm:

Dyddiad	Digwyddiad	Natur y Presenoldeb	Mynychwyd gan
05/04/17	Cyfarfod Penaethiaid Gwasanaeth y Fforwm Mynediad Lleol	Cadeirydd/Is-gadeirydd y Fforwm Mynediad Lleol	Mark Hadley, Karen Burch, Caroline Ferguson
26/04/17	Cyfarfod Cadeiryddion y Fforwm Mynediad Lleol	Aelodau'r Fforwm Mynediad Lleol	Geoffrey Williams
05/10/17	Cyfarfod Cadeiryddion Fforymau Mynediad Lleol De Cymru	Aelodau'r Fforwm Mynediad Lleol	Geoffrey Williams
20/10/17	Cyfarfod Penaethiaid Gwasanaeth y Fforwm Mynediad Lleol	Cadeirydd/Is-gadeirydd y Fforwm Mynediad Lleol	Mark Hadley, Karen Burch, Y Cyngorydd Peter Hughes-Griffiths

### **Pwyllgorau'r Fforwm / Cyfarfodydd Eraill**

Yn unol â rheoliad 13 y Fforwm Mynediad Lleol caniateir sefydlu pwyllgorau'r Fforwm Mynediad Lleol. Yn 2017, sefydlodd y Fforwm y pwyllgorau canlynol / mynychodd y Fforwm y cyfarfodydd canlynol:

<b>Dyddiad</b>	<b>Digwyddiad</b>	<b>Natur y Presenoldeb</b>	<b>Mynychwyd gan</b>
	Cyfarfod Adolygu Cynllun Gwella Hawliau Tramwy y Fforwm Mynediad Lleol	Aelodau'r Fforwm Mynediad Lleol	Mark Hadley, Karen Burch, Jillie Gardiner, Geoffrey Williams, Caroline Ferguson

### **Cyflwyniadau i'r Fforwm Mynediad Lleol**

Rhoddwyd y cyflwyniadau canlynol gerbron y Fforwm Mynediad Lleol yn 2017:

1. 16 Chwefror 2017 – Rhoddodd Simon Charles (Rheolwr Strategaeth Drafnidiaeth ac Isadeiledd Cyngor Sir Gaerfyrddin) gyflwyniad ynghylch Teithio Llesol yn Sir Gaerfyrddin a Llwybr Beicio Dyffryn Tywi.
2. 16 Chwefror 2017 – Rhoddodd Martin Dolan (Capita) gyflwyniad ynghylch Adolygiad o'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy a fydd yn parhau drwy gydol 2017 ac yn gynnar yn 2018.
3. 16 Chwefror 2017 - Rhoddodd John Maudsley a Mike Watson (Grŵp Llywio Rheilffordd Calon Cymru) gyflwyniad ynghylch y teithiau cerdded arfaethedig sy'n cysylltu â Rheilffordd Calon Cymru.
4. 11 Mai 2017 – Rhoddodd John McEvoy (Rheolwr Traffig a Diogelwch Ffyrdd Cyngor Sir Gaerfyrddin) gyflwyniad ynghylch y broses o weithredu Gorchymyn Rheoleiddio Traffig ar hawliau tramwy.
5. 7 Rhagfyr 2017 – Rhoddodd Martin Dolan (Capita) gyflwyniad ynghylch drafft y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy.

### **Cynllun Gwaith 2018**

Yn unol â Rheoliad 16(2)(b), mae'n ofynnol bod adroddiad blynyddol y Fforwm Mynediad Lleol yn cynnwys rhaglen waith y cytunwyd arni gan y Fforwm a'r awdurdod penodi ac y bydd y Fforwm yn ei gweithredu yn ystod y deuddeng mis nesaf. Mae'r eitemau canlynol wedi'u cynnwys ar gyfer 2017:

1. **Eitemau y disgwylir iddynt gael eu cyfeirio at y Fforwm gan gyrrff eraill:**

#### **Awdurdod Lleol:**

Rhagwelir y bydd yr eitemau canlynol yn cael eu trafod gyda Chyngor Sir Gaerfyrddin yn 2018:

- Teithio Llesol
- Prosiect Llwybr Beicio Dyffryn Tywi
- Adolygiad o'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy
- Cynllunio
- Rhaglen Waith Gwelliannau Grant
- Cyfathrebu gwell rhwng Adrannau'r Cyngor a'r Fforwm Mynediad Lleol
- Strwythurau Staffio Adran Gyfreithiol a Chynnal a Chadw Cyngor Sir Gaerfyrddin o ran Mynediad i Gefn Gwlad
- Cytundeb Dirprwyo Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
- Diweddariadau cyson ynghylch y rhaglen gwelliannau grant a'r gwaith hawliau tramwy a wnaed gan yr Awdurdod.
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ym mhob cyfarfod gyda golwg ar faterion cynnal a chadw a materion cyfreithiol sydd heb eu datrys.

### **Llywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru**

Rhagwelir y bydd yr eitemau canlynol yn cael eu cyfeirio at y Fforwm gan Lywodraeth Cymru yn 2018:

- Proses Adolygu'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy

Disgwylia Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru gyfeirio'r materion canlynol at y Fforymau Mynediad Lleol yn ystod y flwyddyn. Canllaw yw hwn yn unig a gall newid i gyd-fynd â blaenoriaethau gwaith. **Ni ddylid ei ystyried yn rhestr derfynol.** Yn ogystal, bydd Awdurdodau Lleol ac Awdurdodau Parc Cenedlaethol yn cyfeirio materion at y Fforymau Mynediad Lleol. Hefyd dylai aelodau'r Fforymau Mynediad Lleol gael eu hannog i gyflwyno eitemau agenda.

- Ymgysylltu â sefydliadau eraill.
- Rhoi cyhoeddusrwydd i'r Fforwm a'i waith.
- Dylanwad - Monitro effaith cyngor ac argymhellion.
- Cynllun Gwaith ar gyfer y flwyddyn.
- Aelodaeth.
- Rôl a llywodraethu'r Fforwm.
- Edrych ar gymorth ar gyfer y Fforymau Mynediad Lleol.

## **2. Eitemau a Gynigwyd gan Aelodau'r Fforwm ac eraill:**

Mae aelodau'r Fforwm wedi gwneud cais am i'r eitemau canlynol gael eu trafod yn 2018:

- Recriwtio aelodau eraill o'r cyhoedd / grwpiau nad ydynt yn cael eu cynrychioli ar y Fforwm gan gynnwys Cynrychiolydd Grŵp Defnyddwyr Anabl.
- Llwybr Cerdded Rheilffordd Calon Cymru
- Themâu Croeso Cymru

- Fferm Wynt Brechfa
- Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus - Cynnwys y Fforwm ynddynt
- Y Fforwm i gael y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch Gorchmynion Rheoleiddio Traffig
- Defnyddio gwirfoddolwyr i helpu'r Awdurdod
- Cyfarfodydd rheolaidd gyda'r Penaethiaid Gwasanaeth (o leiaf 2 fesul blwyddyn)

### **Cyfarfodydd Arfaethedig yn 2018**

Mae'r rhaglen arfaethedig ar gyfer cyfarfodydd yn 2018 fel a ganlyn:

- 15 Chwefror 2018 – Canolfan Hamdden Caerfyrddin
- 14 Mehefin 2018 – Canolfan Tywi Llandeilo
- 20 Medi 2018 – Canolfan Hamdden Caerfyrddin
- 6 Rhagfyr 2018 – Canolfan Tywi Llandeilo



# Atodiadau

**Atodiad 1**  
**Adroddiadau ar Faterion Cynnal a Chadw a Materion Cyfreithiol sydd  
heb eu datrys**

**Adroddiadau ar gyfer:**

**13/01/17**

**28/04/17**

**19/09/17**

**01/12/17**

## **Atodiad 2 – Manylion yr Awdurdod Penodi**

**Enw'r Awdurdod Penodi:** Cyngor Sir Caerfyrddin

**Ardal y mae'r Fforwm yn gyfrifol amdani:**

Sir Gaerfyrddin gyfan ac eithrio'r rhan honno sy'n rhan o Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

**Ysgrifennydd:**

Caroline Ferguson,  
Rheolwr Dros Dro - Mynediad i Gefn  
Gwlad, Uned Cefn Gwlad, Hamdden  
a Mynediad, Cyngor Sir Caerfyrddin,  
Parc Coetir y Mynydd Mawr, Heol  
Hirwaun Olau, y Tymbl, Sir  
Gaerfyrddin SA14 6HU.


**Rhif Ffôn:**

01554 742216

**E-bost:**

CFerguson@sirgar.gov.uk

### Atodiad 3 – Map o Ardal y Fforwm Mynediad Lleol



#### Allwedd

Ardal wedi'i hamgylchynu mewn coch = Sir Gaerfyrddin

Ardal wedi'i hamgylchynu mewn melyn = Rhan o'r Sir ym Mharc  
Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (Heb ei chynnwys gan Fforwm  
Mynediad Lleol Sir Gaerfyrddin)

#### Atodiad 4 - Manylion Aelodaeth / Recriwtio

Yn unol â Rheoliad 3 o Reoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Fforwm Mynediad Lleol) (Cymru) 2001, mae holl aelodau'r fforwm yn cael eu penodi am dair blynedd o ddyddiad y cyfarfod cyntaf o gylch tair blynedd y fforwm.

Yn y cyfarfod ar 26 Chwefror 2015, etholwyd Mark Hadley yn Gadeirydd ac etholwyd Karen Burch yn Is-gadeirydd. Mae'r tabl canlynol yn cynnwys manylion bras am yr holl aelodau hyd at 31 Rhagfyr 2017.

Enw	Dyddiad y penodwyd i'r Fforwm	Dyddiad y daeth Aelodaeth y Fforwm i ben	Cefndir / Diddordebau yn fras
Mark Hadley (Cadeirydd)	26 / 02/15	Ddim yn berthnasol	Twristiaeth, Cerdded, Mynediad i Gerbydau Modur
Karen Burch (Is-gadeirydd)	26/02/15	Ddim yn berthnasol	Mynediad i Geffylau, Twristiaeth
Caroline Ferguson (Ysgrifennydd Interim)	12/05/16	Ar gyfnod mamolaeth o gyfarfod 28/09/17 ymlaen	Rheolwr Interim - Mynediad i Gefn Gwlad, Cyngor Sir Caerfyrddin
Alan Warner (Aelod a Benodwyd gan y Cyngor)	26/02/15	Ddim yn berthnasol	Rheolwr Gweithrediadau Cefn Gwlad, Cyngor Sir Caerfyrddin
Edward Percy	26/02/15	Ddim yn berthnasol	Mynediad i Gerbydau Modur
Caroline Evans	26/02/15	Ddim yn berthnasol	Diogelu'r Dirwedd / Ecoleg, Twristiaeth, Mynediad Agored
Eric Jones	26/02/15	Ddim yn berthnasol	Ffermio
Jillie Gardiner	26/02/15	Ddim yn berthnasol	Mynediad i Geffylau, Twristiaeth
Chris Rankin	26/02/15	11/05/17	Mynediad i Gerbydau / Marchogwyr, Perchennog Tir
Keith Morgan	26/02/15	Ddim yn berthnasol	Cyngor Cymuned Lleol, Ffermio
Glyn Evans	26/02/15	Ddim yn berthnasol	Ffermio
Eric Davies	26/02/15	Ddim yn berthnasol	Ffermio
David Stacey	26/02/15	Ddim yn berthnasol	Beicio, Rheoli Cefn Gwlad, Amgylchedd Amaethyddol
Jane Evans	19/11/15	Ddim yn berthnasol	Cymdeithas Ceffylau Prydain
Richard Leggett	19/11/15	Ddim yn berthnasol	Cerddwyr Caerfyrddin
Geoffrey Williams	19/11/15	Ddim yn berthnasol	Cerdded
John Cook	22/09/16	Ddim yn berthnasol	Cerddwyr Llanelli

Fforwm Mynediad Lleol Sir Gaerfyrddin  
Adroddiad Blynnyddol 2017

Gerald Brown	22/09/16	Ddim yn berthnasol	Ffermio
--------------	----------	--------------------	---------

Mynychodd Aelodau'r Fforwm gyfarfodydd canlynol y Fforwm yn 2017:

<b>Enw</b>	<b>16/02/17</b>	<b>11/05/17</b>	<b>28/09/17</b>	<b>07/12/17</b>
Mark Hadley (Cadeirydd)	Do	Do	Do	Do
Karen Burch (Is-gadeirydd)	Do	Ymddiheuriadau	Do	Do
Caroline Ferguson (Ysgrifennydd Interim)	Do	Do	Absenoldeb Mamolaeth	Absenoldeb Mamolaeth
Alan Warner (Aelod a Benodwyd gan y Cyngor)	Naddo	Naddo	Naddo	Naddo
Edward Percy	Naddo	Naddo	Ymddiheuriadau	Naddo
Caroline Evans	Ymddiheuriadau	Do	Do	Ymddiheuriadau
Eric Jones	Naddo	Naddo	Naddo	Naddo
Jillie Gardiner	Do	Do	Do	Do
Chris Rankin	Ymddiheuriadau	Wedi ymddiswyddo	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol
Keith Morgan	Ymddiheuriadau	Ymddiheuriadau	Do	Naddo
Glyn Evans	Do	Do	Do	Naddo
Eric Davies	Ymddiheuriadau	Naddo	Naddo	Naddo
David Stacey	Ymddiheuriadau	Ymddiheuriadau	Ymddiheuriadau	Do
Jane Evans	Do	Ymddiheuriadau	Ymddiheuriadau	Ymddiheuriadau
Richard Leggett	Do	Do	Ymddiheuriadau	Do
Geoffrey Williams	Do	Ymddiheuriadau	Do	Do
John Cook	Naddo	Naddo	Naddo	Naddo
Gerald Brown	Ymddiheuriadau	Ymddiheuriadau	Naddo	Naddo

Allwedd

Do Mynychwyd y cyfarfod  
Ymddiheuriadau Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb  
Naddo Ni fynychwyd y cyfarfod ac ni dderbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb  
Ddim yn berthnasol Person heb fod yn aelod o'r Fforwm yn y cyfarfod hwn

Fforwm Mynediad Lleol Sir Gaerfyrddin  
Adroddiad Blynnyddol 2017

Mae nifer o ymgynghorwyr / aelodau o'r cyhoedd wedi mynychu cyfarfodydd y Fforwm drwy gydol y flwyddyn fel y dangosir yn y tabl isod.

<b>Enw</b>	<b>Sefydliad</b>	<b>Cyfarfodydd a fynychwyd</b>
Martin Dolan	Capita Consultancy	16/02/17, 07/12/17
John Maudsley	Grŵp Llywio Cymdeithas Teithwyr Rheilffordd Calon Cymru (HOWLTA)	16/02/17
Mike Watson	Grŵp Llywio Cymdeithas Teithwyr Rheilffordd Calon Cymru (HOWLTA)	16/02/17
Simon Charles	Rheolwr y Strategaeth Drafnidiaeth ac Isadeiledd CSC	16/02/17
Jason Lawday	Cynorthwydd Mynediad i Gefn Gwlad CSC	16/02/17
Lucy Pugh	Cynorthwydd Mynediad i Gefn Gwlad CSC	16/02/17
John McEvoy	Rheolwr Traffig a Diogelwch Ffyrdd CSC	11/05/17
John Morgan	Cadeirydd Fforwm Mynediad Lleol Ceredigion / Cadeirydd y Cadeiryddion	11/05/17
Helena Burke	Cynorthwydd Chwiliadau a Mynediad i Gefn Gwlad CSC	11/05/17
Brian Philips	Cyngor Cymuned Bronwydd	11/05/17
Cliff Cleaton	Rheolwr Dros Dro Mynediad i Gefn Gwlad CSC	28/09/17, 07/12/17
Phil Snaith	Fforwm Beicio Sir Gaerfyrddin	28/09/17
Martin Murray	Cynrychiolydd Cynnal a Chadw CSC	28/09/17
Anne Marshall	Aelod o'r Cyhoedd	28/09/17
Y Cynghorydd Peter Hughes Griffiths	Aelod o Fwrdd Gweithredol CSC	28/09/17
Paul Barrett	Cerddwyr Llanelli	28/09/17, 07/12/17
Richard Waters	Cyngor Sir Gaerfyrddin	07/12/17

## Atodiad 5

### Rhestr Ddosbarthu Adroddiad Blynyddol y Fforwm Mynediad Lleol

Gwefan Cyngor Sir Caerfyrddin  
Llyfrgelloedd Cyngor Sir Caerfyrddin  
Canolfannau Gofal Cwsmeriaid Cyngor Sir Caerfyrddin  
Cynghorau Cymuned  
Aelodau Cyngor Sir Caerfyrddin  
Prif Weithredwr a Chyfarwyddwyr Cyngor Sir Caerfyrddin  
Cymdeithas Twristiaeth Sir Gâr  
Cymdeithas y Cerddwyr Ceredigion  
Cymdeithas y Cerddwyr Penfro  
Cymdeithas y Cerddwyr Llanelli  
Cymdeithas y Cerddwyr Dinefwr  
Cymdeithas y Cerddwyr - Caerfyrddin a'r Cylch  
Cymdeithas y Cerddwyr Llanbedr Pont Steffan  
Marchogion Sir Gaerfyrddin  
Cymdeithas Ceffylau Prydain  
Cymdeithas y Lonydd Gwyrdd  
Treadlightly  
Trail Riders Fellowship  
Welsh Trail Riders Association  
Auto Cycle Union  
British Motorcyclists Association  
Sustrans Cymru  
Cyfoeth Naturiol Cymru  
Undeb Amaethwyr Cymru  
Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr  
Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol  
Cymdeithas Mannau Agored  
Ymddiriedolaeth Cilffyrdd a Llwybrau Ceffylau  
Cymdeithas Yrru Prydain  
Clwb Teithiau i Feicwyr (Cyclists Touring Club)  
LARA (Cymdeithas Hamdden a Mynediad i Dir)  
Fforwm Mynediad Lleol Bannau Brycheiniog  
Fforwm Mynediad Lleol Sir Benfro  
Fforwm Mynediad Lleol Ceredigion  
Fforwm Mynediad Lleol Powys  
Fforwm Mynediad Lleol Castell-nedd a Phort Talbot  
Fforwm Mynediad Lleol Abertawe



## **Atodiad 6**

### **Rhagor o Ddeunydd Darllen**

#### Adroddiadau Blynyddol y Fforwm Mynediad Lleol

Mae'n ofynnol yn ôl statud i bob awdurdod penodi lunio adroddiadau blynyddol. Gellir cael copi ohonynt gan Ysgrifennydd y Fforwm perthnasol. Mae agendâu, cofnodion a phapurau eraill ar gyfer cyfarfod unigol y Fforwm hefyd ar gael: <http://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/gwasanaethaur-cyngor/hawliau-tramwy-cyhoeddus/fforwm-mynediad-lleol/>

#### Deddf y Llywodraeth

Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000; The Stationery Office Ltd (2000).

#### Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Rheoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Fforymau Mynediad Lleol ) (Cymru) 2001;  
The Stationery Office Limited (2002).

Canllawiau ynghylch Hawliau Tramwy Cyhoeddus ar gyfer Awdurdodau Lleol (Hydref 2016)

#### Cyfoeth Naturiol Cymru

Cyfarwyddyd ar gyfer Fforwm Mynediad Lleol 1: Sefydlu Fforymau Mynediad Lleol – Cyngor a Chyfarwyddyd Arferion Da (2002).

Cyfarwyddyd ar gyfer Fforwm Mynediad Lleol 2: Swyddogaeth, Dyletswyddau a Phwrpas Fforymau Mynediad Lleol (2002)

## **Atodiad 7**

### **Rhestr Termiau**

Mae'r rhestr isod yn dangos y diffiniadau llawn ar gyfer yr acronymau a ddefnyddiwyd drwy gydol yr adroddiad blynyddol hwn:

LAF	Fforwm Mynediad Lleol Sir Gaerfyrddin
CCC	Cyngor Sir Caerfyrddin
TVCP	Llwybr Beicio Dyffryn Tywi
ROWIP	Cynllun Gwella Hawliau Tramwy
BOAT	Cilffordd sydd ar agor i unrhyw draffig
UCR	Ffordd Sirol Ddiddosbarth
BBNP	Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
TRO	Gorchymyn Rheoleiddio Traffig
NRW	Cyfoeth Naturiol Cymru
WAG	Llywodraeth Cynulliad Cymru
HOWLTA	Cymdeithas Teithwyr Rheilffordd Calon Cymru
LARA	Cymdeithas Hamdden a Mynediad i Dir